**Dinas a Sir Abertawe**

# Cofnodion Cyfarfod y Pwyllgor Safonau

**Cyfarfod Aml-Leoliad - Ystafell Gloucester, Neuadd y Ddinas / MS Teams**

**Dydd Gwener, 19 Ionawr 2024 am 10.00 am**

**Yn Bresennol**: Mike Lewis (Cadeirydd) oedd yn llywyddu

| **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** |
|---|---|
| M B Lewis | L G Thomas |

| **Aelodau Cyfetholedig(wyr)** | **Aelodau Cyfetholedig(wyr)** |
|---|---|
| Carlo Rabaiotti | Janet Pardue-Wood |
| Michaela Jones | Mark Rees |

**Swyddog(ion)**

| | |
|---|---|
| Huw Evans | Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd |
| Allison Lowe | Swyddog y Gwasanaethau Democrataidd |
| Adrian Jeremiah | Lead Lawyer |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y Cynghorydd(wyr): O G James
Aelodau Cyfetholedig(wyr): DD/B

---

## 9 Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol.

Yn unol â'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau.

## 10 Cofnodion.

**Penderfynwyd** cymeradwyo a llofnodi cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Safonau a gynhaliwyd ar 13 Hydref 2023 fel cofnod cywir.

## 11 Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Safonau 2022-2023.

Cyflwynodd Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Safonau 2022-2023. Disgrifiodd yr adroddiad sut y cyflawnwyd swyddogaethau'r Pwyllgor yn ystod y flwyddyn flaenorol.

**Penderfynwyd:**

1) Cymeradwyo'r adroddiad a'i anfon ymlaen i'r cyngor er gwybodaeth.

## 12 Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru 2022/2023.

Darparodd y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd adroddiad "Er Gwybodaeth" mewn perthynas ag Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2022/2023 Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru.

## 13 Adolygiad o'r Pwyllgor Safonau - Gweithdrefn Gwrandawiadau.

Cyflwynodd y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd adroddiad er mwyn adolygu Gweithdrefn Gwrandawiadau'r Pwyllgor Safonau.

Gwnaeth y Pwyllgor Safonau sawl argymhelliad i wella'r Weithdrefn Gwrandawiadau.

**Penderfynwyd:**

1) Cymeradwyo'r adroddiad yn amodol ar y newidiadau canlynol:
   a) Ychwanegu brawddeg ynghylch datgelu dogfennau ar gyfer bwndel y Pwyllgor o fewn 5 niwrnod gwaith clir cyn cyhoeddi'r pecyn agenda;
   b) Ychwanegu paragraff sy'n ei gwneud yn ofynnol i bob cyfranogwr gadarnhau bod eu datganiad yn wir hyd eithaf eu gwybodaeth;
   c) Diwygio paragraff 13.1 i ddarllen "Bydd y Pwyllgor yn cyhoeddi ei benderfyniad ar y diwrnod lle bo modd. Penderfyniad ysgrifenedig llawn gyda rhesymau sy'n cefnogi'r penderfyniad...";
   d) Ychwanegu rhifau tudalen a rheoli fersiynau;
   e) Ychwanegu paragraff sy'n ymwneud â "Chynrychiolaeth."

2) Dosbarthu'r Weithdrefn Gwrandawiadau diwygiedig i'r Pwyllgor drwy e-bost.

## 14 Torri Cod Ymddygiad - Cwynion a wnaed i Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru. (Er gwybodaeth)

Cyflwynodd y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd adroddiad "er gwybodaeth" i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor Safonau am benderfyniadau Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru mewn perthynas â honiadau bod Cynghorwyr Awdurdodau Lleol a Chynghorwyr Cymuned/Tref wedi torri'r Côd Ymddygiad.

## 15 Cynllun Gwaith 2023-2024.

Cyflwynodd y Cadeirydd y Cynllun Gwaith ar gyfer 2023-2024.

**Penderfynwyd:**

1) Nodi'r cynllun gwaith;
2) Anfon pynciau ar gyfer Cynllun Gwaith 2024-2025 at y Cadeirydd cyn y cyfarfod nesaf.

Daeth y cyfarfod I ben am 10.51 am

**Cadeirydd**